

“ Mae Bwletin y Farchnad y mis hwn yn edrych ar ganlyniadau arolwg Mehefin 2024 y DU a ryddhawyd ganol mis Rhagfyr, a sut y gall niferoedd da byw effeithio ar y cyflenwad yn y dyfodol.

Glesni Phillips – Swyddog Gweithredol Deallusrwydd, Dadansoddi a Mewnwelediad Busnes



GWARTHEG

Mae data gan Defra yn dangos bod cyfanswm y gwartheg a'r lloi yn y DU wedi gostwng ychydig ym mis Mehefin 2024, o 9.55 miliwn i **9.41 miliwn pen** - gostyngiad o 1.5% (143,555 pen) o'i gymharu â 2023. Mae hyn yn parhau â'r dirywiad parhaus ym muchedd y DU. Fe wnaeth y fuches fridio gyffredinol* (cig eidion a llaeth) wedi lleihau o bron i 2% i 3.18 miliwn pen, sydd wedi'i sbarduno gan ostyngiad o 5% yn **y fuches fridio cig eidion** i 1.3 miliwn pen – hwn yw'r lleiaf erbyn hyn, ac mae 14% yn is nag yn 2014. Yn y cyfamser, arhosodd y **fuches fridio llaeth** yn sefydlog ar 1.8 miliwn pen, yn gyson â lefelau 2014. Gallai cynnydd o 3% mewn "gwartheg benywaidd eraill," yn enwedig yn y categori cig eidion (+5%), ddangos ymdrechion i gadw gwartheg benywaidd iau fel stoc bridio bosibl yn y dyfodol. Fodd bynnag, efallai na fydd hyn yn gwrthbwyso'r dirywiad yn y fuches fridio bresennol yn y tymor byr.

Gwelodd gwartheg rhwng 1 a 2 oed ostyngiad bach (-1%), fodd bynnag, mae sefydlogrwydd yn y categori cig eidion, tra bod gwartheg llai nag 1 oed yn dangos dirywiad nodedig, gan effeithio

o bosibl ar y biblinell gyflenwi ar gyfer gwartheg cig eidion yn y blynyddoedd dilynol. Gostyngodd poblogaeth y gwartheg gwrywaidd o 2%, er y gallai cynnydd o 5% mewn gwartheg gwrywaidd 2 oed neu fwy gefnogi niferoedd mewn lladd-dai dros dro, ond gallai gostyngiad mewn categorïau iau o wartheg gwrywaidd (-2% ar gyfer 1-2 oed, -4% ar gyfer llai na blwydd) gyfyngu ar gynhyrchiant cig eidion mewn blynyddoedd diweddarach.


Byddai'r canlyniadau hyn yn awgrymu efallai na fydd cynhyrchiant cig eidion yn dirywio'n sydyn yn y tymor byr yn dilyn sefydlogrwydd mewn gwartheg cig eidion 1-2 oed, ynghyd â'r cynnydd mewn gwartheg gwrywaidd hŷn. Fodd bynnag, mae'r dirywiad nodedig yn y fuches fridio cig eidion, ynghyd â llai o loifanc a dirywiad mewn gwartheg benywaidd o dan 2 oed yn awgrymu gostyngiad posibl mewn cyflenwadau cig eidion dethol a chyfeintiau cynhyrchu yn y tymor canolig a hir dymor.

*diffinnir buwch fridio yng nghyd-destun y datganiad hwn fel buwch sydd wedi lloia.

DEFAID

Mae data Defra yn dangos bod cyfanswm y boblogaeth ddefaid a chig oen yn y DU wedi gostwng 2.5% ym mis Mehefin 2024, o 31.8 miliwn i **31.0 miliwn pen**. Mae hyn yn ostyngiad o 2.5% (neu 785,800 pen) ar y flwyddyn, ac mae'n nodi'r maint diadell lleiaf a gofnodwyd yn arolwg Mehefin ers 2011. Sbardunwyd y dirywiad hwn gan ostyngiadau ar draws y rhan fwyaf o gategoriâu defaid. Gostyngodd maint cyffredinol **y ddiadell fridio fenywaidd** o 3.6% i 14.9 miliwn pen, gyda'r rhai y bwriadwyd ar gyfer bridio tro cyntaf yn gyrru'r dirywiad hwn - i lawr 9% ar y flwyddyn, a allai awgrymu bod llai o anifeiliaid cyfnewid yn dod i mewn i'r cylch bridio.

Mae'r canlyniadau'n dangos bod y **cnwd ŵyn** (o dan flwydd oed) wedi gostwng 1.5% i sefyll ar 15.2 miliwn pen, y cnwd ŵyn lleiaf a gofnodwyd yn ystod y degawdau diwethaf. Mae'r gostyngiad hwn eisoes wedi



effeithio ar argaeledd y cnwd ŵyn presennol (Mai 2024 – Ebrill 2025) ar gyfer lladd, gyda'r lefelau trwybwn 8% yn is na'r flwyddyn flaenorol. Mae'n debygol y bydd y gostyngiad yn y ddiadell fagu benywaidd, yn enwedig mamogiaid sy'n bridio am y tro cyntaf, yn arwain at grwd ŵyn llai y flwyddyn nesaf a allai dynhau cyflenwadau o ŵyn ar gyfer bridio a lladd yn y blynyddoedd dilynol.

MOCH

Ym mis Mehefin 2024, roedd poblogaeth moch y DU yn **4.7 miliwn pen** - cynnydd o 0.7% ers 2023. Sbardunwyd y twf hwn gan gynydd o bron i 40,000 pen yn nifer y **moch pesgi**, gan ddod â'u cyfanswm i 4.3 miliwn pen. Fodd bynnag, gostyngodd y **fuches fridio benywaidd** 3% i 327,300 pen.

Diolch i bawb a gymerodd ran yng Ngham 3 ein 'Arolwg Bwriadau Ffermwyr'. Mae crynodeb o'r prif ganlyniadau i'w gweld ar ein gwefan yma – <https://meatpromotion.wales/cy/market-intelligence/market-analysis/>

Canlyniadau arolwg Mehefin 2024 ar gyfer Cymru:

- Cyfanswm y gwartheg a'r lloi = 1.1 miliwn pen (-2% ar y flwyddyn)
- Cyfanswm y defaid a'r ŵyn = 8.8 miliwn pen (+1% ar y flwyddyn)
- Cyfanswm y moch = 27,900 pen (+12% ar y flwyddyn)

Ffynhonnell: 'Arolwg o amaethyddiaeth a garddwriaeth, Mehefin 2024'

Crynodeb Misol y Farchnad

GWARTHEG

Prisiau — yr wythnos yn dod i ben ar 14 Rhagfyr

Y prisiau pwysau marw cyfartalog yng Nghymru a Lloegr ar gyfer bustych oedd **542.8c/kg**. Roedd hyn:

- + 3.5c ar yr wythnos flaenorol,
- 62.4c uwchlaw lefelau blwyddyn yn gynharach..
Roedd y prisiau pwysau marw ar gyfer categorïau gwartheg eraill fel a ganlyn -
- Heffrod: 535.9c/kg (+2.6p ar yr wythnos),
- Teirw ifanc: 522.0c/kg (+2.9c ar yr wythnos), a
- Buchod difa: 363.9c/kg (+2.2p ar yr wythnos).

Trwybwn - Tachwedd 2024

- Cyfanswm y trwybwn gwartheg mewn lladd-dai yn y DU = 247,600 pen – gostyngiad o 6% ar y flwyddyn.
- Cyfanswm y trwybwn gwartheg dethol = 177,000 pen - i lawr 5% ar y flwyddyn.
 - bustych -7%, heffrod -3%, a theirw ifanc -9%
- Cyfartaledd pwysau carcassau gwartheg dethol = 337.4kg (+1.1kg ar y flwyddyn).
- Trwybwn gwartheg llawn-dwf = 63,200 pen - i lawr 7% ar y flwyddyn.

DEFAID

Prisiau — yr wythnos yn dod i ben ar 14 Rhagfyr

Cyfartaledd pris ŵyn pwysau marw ym Mhrydain oedd **689.9c/kg**.
Roedd hyn:

- 0.8c ar yr wythnos flaenorol
- Fe wnaeth y niferoedd oedd yn dod ar y farchnad gyrraedd 51,330 pen.
Roedd hyn:
- + 12% ar yr wythnos flaenorol, a
 - 10% o'i gymharu â lefelau blwyddyn yn gynharach.

Trwybwn - Tachwedd 2024

- Cyfanswm y trwybwn defaid mewn lladd-dai yn y DU = 1.1 miliwn pen – i lawr 12% ar y flwyddyn.
- Trwybwn ŵyn = 1.0 miliwn pen – i lawr 11% ar y flwyddyn.
- Pwysau carcass ŵyn cyfartalog = 19.8kg (+0.1kg ar y flwyddyn).
- Trwybwn mamogiaid a hyrddod difa = 108,900 pen – i lawr 16% ar y flwyddyn.

MOCH


Prisiau — yr wythnos yn dod i ben ar 7 Rhagfyr

Roedd Pris Mochyn Cyfan Manyleb yr UE (APP) ym Mhrydain Fawr yn **208.0c/kg**. Roedd hyn:

- 1.7c ar yr wythnos flaenorol,
- 7.5c o'i gymharu â lefelau blwyddyn yn gynharach,
- 30.3c yn uwch na'r cyfartaledd 5 mlynedd (cyfartaledd 2018-22: 177.7c/kg).


Trwybwn - Tachwedd 2024

- Cyfanswm y trwybwn moch mewn lladd-dai yn y DU = 895,300 pen – gostyngiad o 4% ar y flwyddyn.
- Trwybwn moch heb fagu = 878,700 pen – i lawr 3% ar y flwyddyn.
- Pwysau carcass moch heb fagu cyfartalog = 90.2kg (-0.1kg ar y flwyddyn)
- Trwybwn hwch a baedd = 16,600 pen – i lawr 19% ar y flwyddyn.




**Cynhyrchiant
Cig Eidion
a Chig Llo y DU
Tachwedd '24**

**81,900 tunnell
+4% b-a-f**



**Cynhyrchiant
cig defaid y DU
Tachwedd '24**

**25,800 tunnell
-11% b-a-f**



**Cynhyrchiant
porc y DU
Tachwedd '24**

**81,800 tunnell
-4% b-a-f**

